Mae'r ymateb yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This response is also available in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**i Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

## Sylwadau cyffredinol

Rwy'n croesawu'r cynigion yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft, sy'n arddel dull systematig o gynllunio strategol a monitro llywodraethu a pherfformiad ariannol ar draws addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Rwyf hefyd yn croesawu creu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil â'i genhadaeth ddinesig sy'n hyrwyddo lleisiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a'i gyfrifoldeb i amddiffyn a gwerthfawrogi buddiannau pob dysgwr, yn alwedigaethol ac academaidd, a ddylai ddarparu gwasanaeth addysgol ôl-16 sy'n decach a mwy cyfiawn yng Nghymru.

## Atodlen 4 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Fel y mae'r Bil drafft yn cydnabod, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gorff rhestredig yn Atodlen 3 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ac felly yn dod o dan fy awdurdodaeth fel Ombwdsmon. Fel y cyfryw, rwy'n gwerthfawrogi bod Atodlen 4 y Bil yn cynnwys cynigion i ddiwygio Atodlen 3 Deddf

2019 i gynnwys y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn fy awdurdodaeth unwaith y bydd wedi'i sefydlu.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombwdsmon,cymu).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2020**

*********************************************************************************************